

Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# Sut i gael mynediad i Disqus a'i ddefnyddio

**Cam 1 – Ewch i [https://chcymru.org.uk/cy/](https://chcymru.org.uk/cy/) a mewngofnodi.**





**Os nad oes gennych fanylion mewngofnodi, gallwch [greu cyfrif yma](#).** Mae cael cyfrif hefyd yn golygu y gallwch danysgrifio i'n rhestri postio, cofrestru am ddigwyddiadau rhad ac am ddim (Grwpiau Cyflenwi Strategol, sesiynau sbotolau, gweminarau) a threfnu lleoedd ar ddigwyddiadau y mae angen talu amdanynt tebyg i gynadleddau a hyfforddiant. Gofynnir i chi nodi y bydd angen i gyfrifon gael eu dilysu gan aelod o dîm CHC ac y gall y broses gymryd hyd at 24 awr.
Os na chaiff eich cyfeiriad e-bost ei adnabod, efallai eich bod wedi creu cyfrif ar ein hen safle. Bydd angen i chi greu cyfrif newydd gan na chafodd gwybodaeth defnyddwyr ei throsglwyddo i'r wefan bresennol oherwydd ystyriaethau GDPR.



**Cam 2.** Unwaith y byddwch wedi mewngofnodi, ewch i'r dudalen yr ydych eisiau ymwneud â hi., Byddwch wedyn yn cael **hysbysiad gan Disqus** sy'n cynnwys eu Telerau Gwasanaeth, Polisi Preifatrwydd a pholisi Rhannu Data. **Dim ond unwaith y bydd angen i chi wneud hyn.**




**Cam 3.** Unwaith y byddwch wedi derbyn y telerau hyn, rydych yn barod i **ddechrau rhannu eich cwestiynau, sylwadau a syniadau gyda chydweithwyr mewn cymdeithasau tai eraill.**



Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

Pan fyddwch yn postio sylwadau, bydd eich enw defnyddiwr yn ymddangos ar dde uchaf y blwch sylwadau. Gallwch hefyd rannu delweddau a dolenni, ond gofynnir i chi nodi na chaiff rhannu ffeiliau ei gefnogi ar Disqus. Os oes gennych adnodd y teimlwch fedrai fod yn ddefnyddiol i eraill yn y sector ei weld, anfonwch e-bost at memberservices@chcymru.org.uk a byddwn yn eich helpu i'w gylchredeg drwy'r sianeli priodol.

Gallwch hefyd danysgrifio i'r bwrdd trafod drwy glicio'r eicon ar chwith isaf y dudalen fel y cewch eich hysbysu pan gaiff sylwadau newydd eu postio.

Rydym eisiau sicrhau fod y byrddau hyn yn fan diogel ac adeiladol, felly gofynnir i chi gofio am y rheolau ymddygiad pan fyddwch yn postio eich sylwadau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â memberservices@chcymru.org.uk